# Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg

(Yn cynnwys safonau gofynnol ar gyfer rheoli risg)

**Rheoli dogfen**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rheswm |
|---|---|---|---|
| 0.1 | 23.02.2023 | CS | Drafft 1af ar gyfer sylwadau. |
| 0.2 | 13.03.2023 | CS | Mân newidiadau wedi'u gwneud yn dilyn sylwadau gan y ffrwd gwaith Llywodraethu a Chyllid. |
| 1.0 | 22.03.2023 | CS | Bwrdd wedi cytuno ar y polisi. |
| 1.1 | 12.3.2023 | AM | Wedi'i adolygu gan y Tîm Arwain. |
| 2.0 | 15.8.2024 | RB | Wedi'i adolygu a'i ddiweddaru. |
| 2.1 | 30.10.24 | RB | Wedi'i adolygu a'i gefnogi gan y Bwrdd yn dilyn trafodaeth gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Medi. |
| 2.2 | 26.3.25 | RB | Drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. |

**Adolygu dogfen**

| Cytunwyd ar | Cytunwyd gan | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|
| 22.03.2023 | Bwrdd Llais | 2024 |
| 26.03.2025 | Bwrdd Llais | 2026 |
| | | |
| | | |

# Cynnwys


Cyflwyniad ........................ **Error! Bookmark not defined.**

Symud o'r model traddodiadol i ddull gweithredu cadarnhaol ehangach sy'n seiliedig ar gryfderau .................................. 6

Ein hamcanion rheoli risg........ **Error! Bookmark not defined.**

Egwyddorion rheoli risg .......... **Error! Bookmark not defined.**

Gwelliant parhaus ................ **Error! Bookmark not defined.**

Parodrwydd Llais i dderbyn risg ...................................... 13

Datganiad parodrwydd i dderbyn risg cyffredinol...................... 17

Atodiad A: Safonau gofynnol ar gyfer ein hymagwedd rheoli risg bresennol ........................................................ 20

Cadw cofrestrau risgiau ......... **Error! Bookmark not defined.**

Rolau a chyfrifoldebau ................................................ 23

Ein Bwrdd......................... **Error! Bookmark not defined.**

Ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg .............................. 24

Ein Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth........................................................ 25

Ein Prif Weithredwr............... **Error! Bookmark not defined.**

Ein Hysgrifennydd Bwrdd........ **Error! Bookmark not defined.**

Ein Tîm Gweithredol ............. **Error! Bookmark not defined.**

Ein Uwch Dîm Rheoli (Tîm Arwain) .................................. 27

Arweinwyr rhanbarthol a risg swyddogaeth ............................ 29

Staff Llais ............................................................ 31

Adolygu cofrestrau risgiau....... **Error! Bookmark not defined.**

Adrodd tuag i fyny ac uwchgyfeirio risgiau ........................... 33

Templed Cofrestr risgiau ........ **Error! Bookmark not defined.**

Sgorio risgiau ..................... **Error! Bookmark not defined.**

Mesur tebygolrwydd.............. **Error! Bookmark not defined.**

Mesur effaith ...................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffynhonnell risg................... **Error! Bookmark not defined.**

Nodi ymatebion i risgiau cynhenid ....................................46
Adolygu safonau a gwelliant parhaus..................................47

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi strategaeth a fframwaith polisi Llais[1] ar gyfer rheoli risg, ac mae'n amlygu y bydd y sefydliad gydag amser yn symud tuag at fodel sydd hefyd yn cynnwys ac yn defnyddio fframweithiau gweithredu cadarnhaol sy'n seiliedig ar gryfderau i gynorthwyo Llais i gyflawni ei nodau ac amcanion cytunedig.

Gall rheoli risg yn dda wella cynllunio strategol a blaenoriaethu, cynorthwyo i gyflawni amcanion, a chryfhau ein gallu i fod yn ystwyth ac ymateb i'r heriau a wynebwn.  Gall alluogi Llais i ddeall yn well y risg bosib o beidio â chyflawni ein hamcanion a'n nodau datganedig, a chynorthwyo i ganfod ffyrdd i Llais gynllunio ac ymateb yn gadarnhaol ac yn briodol.

Felly, gellir fframio risgiau yn gadarnhaol ac yn negyddol.  Yn draddodiadol, caiff risgiau eu fframio'n negyddol o ran digwyddiadau ac amgylchiadau posib a allai niweidio neu gyfyngu ar gynnydd.  Fodd bynnag, gellir fframio risgiau yn gadarnhaol hefyd.  Gall cymryd camau cadarnhaol feithrin arloesedd, nodi dulliau newydd o oresgyn problemau hirsefydlog, a sicrhau'r fantais fwyaf posib i'r sefydliad wrth gyflawni ein hamcanion a'n nodau datganedig.

[1] Llais yw enw gweithredol Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru.

Nod y strategaeth a’r polisi hwn yw cydbwyso’r ddau ddull dros amser. Parhau â modelau traddodiadol seiliedig ar risg ar hyn o bryd, ond dros y ddwy flynedd nesaf archwilio ymhellach y cyfleoedd a gyflwynir gan fframweithiau gweithredu cadarnhaol sy’n seiliedig ar gryfderau. Rhagwelir y bydd hyn yn darparu’r ymagwedd a’r proffil risg mwyaf cyflawn i Llais. Bydd yn creu systemau a phrosesau sefydliadol a fydd yn gweithredu fel galluogwyr i Llais a’i staff, ac yn cefnogi ac yn rhoi mantais i’r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Rhagwelir y bydd mabwysiadu’r model hwn yn rhoi mwy o gydnerthedd, mwy o ymddiriedaeth ymhlith rhanddeiliaid, a diwylliant cryfach o arloesi.

Bydd Llais nid yn unig yn defnyddio ein hymagwedd risg i atal pethau a allai fod yn negyddol rhag digwydd, ond hefyd yn cefnogi cymryd rhai camau cadarnhaol i alluogi newid ac ysgogi gwelliant.

Gellir diffinio risg fel effaith ansicrwydd ar ein hamcanion. Fe’i mynegir fel arfer yn nhermau achosion, digwyddiadau posib a’u canlyniadau. Mae’n cynnwys unrhyw beth anhysbys a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion. Gallwn hefyd benderfynu cymryd rhai risgiau dan reolaeth a/neu gamau cadarnhaol i geisio cyflawni ein hamcanion, ac mae hyn yn gweld asesiadau risg yn cael eu defnyddio’n ddatblygiadol, fel galluogwr yn hytrach na fel fframwaith i roi’r gorau i wneud pethau neu atal pethau rhag digwydd.

Os ydym am gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus, gwella’r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaeth a chyflawni gwerth am arian, mae rheoli risg yn dda a gweithredu’n gadarnhaol yn rhannau hanfodol ac annatod o’n gwaith cynllunio, gwneud penderfyniadau, mapio perfformiad ac adrodd ar sicrwydd fel rhan o Fframwaith Sicrwydd Bwrdd Llais.

Mae’r ddogfen hon yn nodi ein:

- strategaeth a pholisi ar gyfer ymagwedd Llais at reoli risg, a’i uchelgais i symud i gael nodweddion clir yn ein hymagwedd o fframweithiau gweithredu cadarnhaol sy’n seiliedig ar gryfderau. Mae’n ymdrin â sut y byddwn yn datblygu diwylliant risg cadarnhaol ac yn cynorthwyo i wneud penderfyniadau deallus ar sail risg. Bydd hyn yn hyrwyddo cynllunio a chyflawni llwyddiannus yn erbyn ein nodau a’n hamcanion.
- parodrwydd presennol i dderbyn risg a lefelau goddefiant risg cytunedig. Mae hyn yn golygu lefel y risg y mae Llais yn barod i’w dderbyn. Gallai hyn newid o amcan i amcan a thros amser. Gallai gael ei effeithio hefyd gan ffactorau allanol, megis argaeledd adnoddau.
  Byddwn yn glir sut y byddwn yn defnyddio ein dealltwriaeth o risg i gefnogi arloesedd, cyfathrebu cadarnhaol a gwelliant, gan ystyried yr hyn sy’n digwydd y tu mewn a thu allan i’n sefydliad.
- safonau gofynnol presennol ar gyfer rheoli risg – model traddodiadol (Atodiad A)

# Symud o’r model traddodiadol i ddull gweithredu cadarnhaol ehangach sy’n seiliedig ar gryfderau

Er bod y strategaeth hon yn canolbwyntio’n bennaf ar ddiweddaru ein model presennol o reoli risg ac atgyfnerthu ein hymagwedd bresennol, mae hefyd

yn ceisio adeiladu ar uchelgais ac egwyddorion Llais i feithrin diwylliant o arloesi, ymgysylltu, a thwf yn seiliedig ar gryfder, dros y flwyddyn i ddod.

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd Llais yn gwerthuso ac yn archwilio ymhellach y cyfleoedd i fabwysiadu dull gweithredu a fframwaith seiliedig ar gryfder at reoli risg, sy'n pwysleisio bod yn flaengar a chymryd strategaethau rhagweithiol, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol i gyflawni ein nodau a'n hamcanion.  Byddai hyn yn golygu symud yn raddol oddi wrth ddibyniaeth lwyr ar ymagweddau traddodiadol seiliedig ar risg yn unig.

Rhagwelir, trwy gofleidio ymagweddau newydd, y gallwn ysgogi ein sefydliad ymhellach, trwy ein hysbrydoli i rannu cyflwr delfrydol ar gyfer y sefydliad, yn hytrach nag osgoi rhai negyddol.  Bydd y fframwaith gweithredu arfaethedig yn cynrychioli mwy na dim ond newid mewn strategaeth; bydd yn newid mewn meddylfryd, diwylliant, a sut rydym yn canfod ac yn ymateb i heriau a chyfleoedd.

Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Llais feithrin iaith optimistiaeth ymhellach, gan greu amgylchedd lle mae arloesedd yn ffynnu, a lle mae pobl yn cael eu buddsoddi ynddynt, a deall yr hyn y mae'r sefydliad yn gobeithio ei gyflawni a sut y byddwn yn cyrraedd yno.

Mae'r dirwedd sefydliadol a phartneriaeth yn gymhleth, ac mae Llais a'i bartneriaid yn wynebu heriau'n barhaus, sy'n gofyn am ymagweddau arloesol a blaengar i lywio hyn yn llwyddiannus.

Yn draddodiadol, mae ffocws rheoli risg y sefydliad wedi canolbwyntio ar liniaru risg, mynd i'r afael â bygythiadau posib ac osgoi canlyniadau negyddol.

Er ei fod yn hanfodol, mae'r ymagwedd bresennol hon sy'n canolbwyntio ar risg yn aml yn tueddu i feithrin meddylfryd gofalus, gan ganolbwyntio'n bennaf ar osgoi a hepgor niwed, yn hytrach nag ymdrechu'n weithredol i

sicrhau cynnydd a thwf.  Y syniad tu ôl i'r newid hwn o fewn Llais yw ail-ddychmygu'r ffordd yr ydym yn canfod ac yn rheoli ein tirwedd risg a datblygu sefydliadol.

Er mwyn ffynnu fel sefydliad, mae angen i ni symud ein ffocws o fframweithiau traddodiadol, sy'n canolbwyntio ar risg, i un sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol.  Awgrymir bod yn rhaid i ni fynd ar drywydd strategaethau sydd nid yn unig yn lliniaru risgiau (mae hyn yn dal yn bwysig), ond sydd hefyd yn ysbrydoli ein pobl i symud tuag at gyflwr o dwf a llwyddiant parhaus.

Mae'r strategaeth hon, er ei bod yn canolbwyntio ar y dull traddodiadol o reoli risg ar hyn o bryd, yn amlygu ymrwymiad Llais i ystyried ymhellach a mabwysiadu lle bo'n bosib yr ymagweddau newydd cadarnhaol, seiliedig ar gryfder, dros y ddwy flynedd nesaf.  Felly, y nod yw nid yn unig i liniaru risgiau trwy ein hymagweddau traddodiadol, ond i feithrin diwylliant sy'n dathlu cynnydd, yn canolbwyntio ar ei gryfderau a'i gydnerthedd, ac yn y pen draw yn cyfrannu at sefydliad ffyniannus, yn unol â'n strategaeth a'n cynlluniau sefydliadol.

Cydnabyddir y byddai hwn yn newid sefydliadol mawr ac yn newid sylweddol mewn ymagwedd, nid yn unig i Llais o ran ei Fwrdd, ei bwyllgorau a'i staff, ond hefyd i'n partneriaid a'n harchwilwyr, yn fewnol ac yn allanol, arolygwyr a rheoleiddwyr a Llywodraeth Cymru.  Felly, cynigir yn ddiweddarach yn 2025 (hydref), y bydd Llais yn hwyluso gweithdy / digwyddiad gyda staff Llais a'n partneriaid, i archwilio ymhellach y fframwaith gweithredu a chryfder, a chychwyn proses o sefydlu'r model hwn yn Llais a'i gyflwyno ochr yn ochr â'r modelau traddodiadol presennol.  Rhagwelir y bydd hyn yn gosod Llais ar flaen y gad o ran arloesi yn y gwasanaethau cyhoeddus, o ran rheoli risg, drwy ganolbwyntio'n bwysig ar gryfderau a chamau gweithredu, yn hytrach na dim ond negatifedd ac ymagweddau risg

traddodiadol.  Bydd hyn hefyd yn ceisio cefnogi llwyddiant Llais i gyflawni ei amcanion strategol ac alinio ag uchelgeisiau ar gyfer adrodd perfformiad integredig yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a thrwy'r OKR, fel y mynegir yn ein strategaeth 3 blynedd a chynllun blynyddol cyffredinol Llais.

# Ein hamcanion rheoli risg

Felly, ein hamcanion rheoli risg presennol yw:

- sicrhau nad yw risgiau sylweddol nad ydym wedi meddwl amdanynt yn cael effaith andwyol ar gyflawni ein hamcanion;
- parhau i sicrhau bod ein hallbynnau a'n canlyniadau'n cael eu cyflawni, tra hefyd fod â threfniadau wrth gefn dibynadwy ar waith i ymdrin â'r annisgwyl, a allai beryglu ein darpariaeth gwasanaeth a chyflawni ein hamcanion;
- defnyddio rhai risgiau dan reolaeth i alluogi arloesedd a gwelliant i gyflawni ein hamcanion, ein rolau a'n cyfrifoldebau;
- hyrwyddo diwylliant risg mwy arloesol, llai gwrth-risg, ond wedi'i reoli'n dda – lle rydym yn annog cymryd risgiau priodol er budd canlyniadau i bobl Cymru;
- darparu sylfaen gadarn ar gyfer integreiddio rheoli risg i wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd, rheoli perfformiad a blaengynllunio;
- sicrhau bod rheoli risg da yn rhan allweddol o arferion llywodraethu a rheoli corfforaethol da, a cheisio arloesi dros amser i gofleidio'r modelau gweithredu cadarnhaol sy'n seiliedig ar gryfderau ar gyfer Llais.

# Egwyddorion rheoli risg

Bydd ein Fframwaith Rheoli Risg yn parhau i gefnogi dull cyson a chadarn o nodi a rheoli cyfleoedd a risgiau o fewn lefelau derbyniol a nodwyd ar draws ein sefydliad.  Bydd hefyd yn cefnogi didwylledd, her, arloesedd a rhagoriaeth wrth gyflawni ein hamcanion.

Bydd y strategaeth a'r polisi rheoli risg hwn hefyd yn gweithredu fel rhan o, ac ochr yn ochr â **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**, ar wahân, ond yn gysylltiedig.  Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cefnogi llywodraethu da ac effeithiol, ac yn galluogi atebolrwydd yn uniongyrchol i'r Bwrdd, ond hefyd i bartneriaid, ac yn bwysig iawn y bobl y mae Llais yn eu gwasanaethu. Mae'n dwyn ynghyd mewn un lle'r holl wybodaeth berthnasol ar y risgiau a pherfformiad sy'n ymwneud ag amcanion strategol y Bwrdd.

Mae hefyd yn amlinellu'r ystod o ffynonellau sicrwydd i'r Bwrdd ac eraill am y ffyrdd y bydd y Bwrdd yn gwybod ei fod ar y trywydd cywir i gyflawni ei amcanion, ond hefyd yn amlinellu'r risg o beidio â chyflawni ei amcanion. Bydd fframwaith risg Llais felly yn arf strategol, cysylltiedig â pherfformiad, a gweithredol pwysig, fel rhan o'r trefniadau sefydliadol ehangach.

Er mwyn i'r fframwaith risg gael ei ystyried yn effeithiol, rhaid dilyn yr egwyddorion canlynol:

- Bydd rheoli risg da ac integredig yn rhan hanfodol o lywodraethu ac arweinyddiaeth, ac yn rhan sylfaenol o'r trefniadau i alluogi'r sefydliad i gael ei gyfeirio, ei reoli'n dda ac yn briodol ar bob lefel.

- Bydd rheoli risg yn rhan annatod o'r holl weithgareddau sefydliadol o ddydd i ddydd, i gefnogi gwneud penderfyniadau, rheoli perfformiad a chynllunio wrth gyflawni amcanion.  Bydd papurau i'r Bwrdd, ei bwyllgorau, y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain yn defnyddio templedi adroddiadau corfforaethol, sy'n gofyn am gwblhau asesiadau risg.

- Bydd rheoli risg yn ymagwedd gydweithredol ar draws y sefydliad a, lle bo'n briodol, gyda sefydliadau partner, a bydd yn cael ei lywio gan yr wybodaeth, yr arbenigedd a'r arfer da gorau sydd ar gael, yn enwedig o ran hyrwyddo modelau newydd o weithredu cadarnhaol ac ymagweddau sy'n seiliedig ar gryfder.

- Bydd y prosesau rheoli risg presennol yn cael eu strwythuro, a bydd y model yn parhau i gynnwys:

    - **adnabod ac asesu risg** i benderfynu a blaenoriaethu sut y dylid rheoli risgiau a phroffil risg Llais;
    - dewis, cynllunio a gweithredu opsiynau **trin risg** sy'n cefnogi cyflawni canlyniadau bwriadedig a rheoli risgiau i lefelau derbyniol;
    - cynllunio a gweithredu **monitro risg** integredig, mewnweledol ac addysgiadol; ac
    - **adroddiadau risg** amserol, cywir a defnyddiol, i wella ansawdd y penderfyniadau a wneir ac i gefnogi rheolwyr a'r Bwrdd i gyflawni eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u hamcanion sefydliadol.  Bydd cyflwyno adroddiadau priodol ac addas yn elfen bwysig o drefniadau Sicrwydd cyffredinol y Bwrdd.

- Bydd rheoli risg yn cael ei wella'n barhaus trwy ddysgu a phrofiad, a defnyddio arfer da a chyngor ac arweiniad ein harchwilwyr, yn fewnol ac

yn allanol, ac ymgysylltu ag arolygwyr a rheoleiddwyr, a manteisio ar gyfleoedd i arloesi a mabwysiadu modelau newydd, lle bo'n briodol.

# Gwelliant parhaus

Bob blwyddyn, bydd yr Ysgrifennydd Bwrdd yn cynnal adolygiad o wersi a ddysgwyd. Bydd hyn yn cynnwys y Tîm Gweithredol, yr uwch dîm rheoli ehangach (Tîm Arwain), pwyllgorau'r Bwrdd, a'r Bwrdd ei hun. Bydd yn nodi cyfleoedd i wella'n barhaus addasrwydd, digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith a'r polisi rheoli risg presennol, a'i gysylltiadau â Fframwaith Sicrwydd cyffredinol y Bwrdd.

Bydd gwaith datblygu ehangach mewn partneriaeth yn cael ei wneud hefyd, fel yr amlinellwyd uchod, i archwilio modelau gwahanol, lle bo'n briodol, a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd y gallai cofleidio modelau a dulliau newydd eu cynnig i Llais, a chyflawni ei nodau a'i amcanion.

Bydd y gwaith adolygu a datblygu hwn hefyd yn cynnwys ailasesu'r parodrwydd i dderbyn risg, i brofi a yw barn y Bwrdd wedi newid wrth i Llais aeddfedu fel sefydliad, a chytuno ar gynlluniau blynyddol newydd a strategaethau newydd. Bydd hefyd yn asesu a yw ffactorau allanol eraill hefyd wedi newid, a fyddai'n effeithio ar barodrwydd Llais i gymryd risgiau dan fwy o reolaeth i gynorthwyo i gyflawni ei amcanion.

O bryd i'w gilydd, bydd staff Llais sy'n gweithio ar strategaethau, polisïau, rhaglenni a phrosiectau yn gwerthuso eu gweithgareddau, i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o brofiadau presennol a blaenorol. Dylai hyn gynnwys gwersi a ddysgwyd ynghylch nodi, lliniaru a rheoli risg, fel rhan

sylfaenol o’u hymagweddau ac effaith cymhwyso a defnyddio egwyddorion rheoli risg wrth fwrw ymlaen â’u gwaith.

# Parodrwydd Llais i dderbyn risg

Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn nodi sut rydym yn cydbwyso risgiau a chyfleoedd wrth geisio cyflawni ein hamcanion.

Yn ystod blwyddyn weithredol gyntaf Llais, penderfynodd ein Bwrdd ddatblygu parodrwydd i dderbyn risg a oedd yn addas ar gyfer y 12 mis cyntaf o weithredu, a oedd yn llai parod i gymryd risg, ond a oedd yn awyddus i fentro ym meysydd ymgysylltu â dinasyddion a chynrychiolaeth. Cydnabuwyd y byddai hyn yn cael ei adolygu’n barhaus, ac y byddai’n cael ei ailasesu o leiaf unwaith y flwyddyn.

Wrth i’r sefydliad aeddfedu, cydnabyddir bod llawer o bethau allanol anhysbys o hyd, yn enwedig o ran adnoddau.  Fodd bynnag, yn fewnol hefyd rydym yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau, swyddogaethau, polisïau a strategaethau.

Wrth i’r rhain ddod yn gliriach a chael eu gwreiddio’n fwy mewn gwaith beunyddiol, fe fydd gweithrediadau Llais yn parhau i newid.  Felly, ar gyfer 2025/2026, cynigir bod y parodrwydd i dderbyn risg yn aros yr un fath ond, fel yr amlinellwyd uchod, bydd hyn yn cael ei adolygu’n barhaus wrth i fodelau newydd gael eu harchwilio a’u mabwysiadu, a bod cynlluniau newydd a’r strategaeth gyffredinol yn cael ei datblygu yn barod ar gyfer 2027.

Mae ein datganiad parodrwydd i dderbyn risg yn nodi disgwyliadau ein Bwrdd ar gyfer rheoli a goddef gwahanol raddau o risg, ac yn amlinellu lle y gellir cymryd rhai risgiau dan reolaeth i hyrwyddo ein hamcanion sefydliadol, a galluogi arloesi a ffyrdd newydd o weithio.

Bydd angen i staff Llais fod yn ymwybodol o barodrwydd i dderbyn risg cyffredinol y sefydliad wrth benderfynu ar yr ymagwedd risg ar gyfer eu maes gweithgarwch neu raglen waith.

Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn defnyddio 3 lefel i ddisgrifio graddau'r risg y gellir ei goddef.  Y rhain yw:

| | |
|---|---|
| **Gwrth-risg** | Mae osgoi risg yn amcan allweddol |
| **Gofalus** | Ffafriaeth i opsiynau cyflawni diogel gyda lefel isel o risg weddilliol a dim ond buddion cyfyngedig posib |
| **Awyddus** | Awyddus i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau sy'n cynnig buddion sefydliadol uwch er gwaethaf mwy o risg gynhenid |

Mae ein parodrwydd i dderbyn risg presennol yn disgrifio graddau'r risg y gellir ei goddef mewn sawl maes hollbwysig.  Mae'r rhain wedi'u nodi isod.  Sylwch y datblygwyd y parodrwydd i dderbyn risg hwn ar gyfer 12 mis cyntaf Llais o weithredu.  Mae'n cael ei fabwysiadu eto ar gyfer 2025/2026, ond bydd yn cael ei adolygu yn ystod y cyfnod hwn, fel rhan o'r gwaith datblygu uchod.

Ar adegau efallai y bydd angen ymateb i ddigwyddiadau arwyddocaol iawn, a allai olygu bod angen i'r Bwrdd atal y parodrwydd i dderbyn risg arferol am gyfnod, trwy naill ai leihau neu gynyddu'r parodrwydd i dderbyn risg a reolir neu dan reolaeth.  Bydd unrhyw newidiadau i'n parodrwydd i dderbyn risg yn cael eu cytuno gan y Bwrdd, a byddant yn cael eu cyfleu i'r holl staff.

Wrth bennu ei barodrwydd i dderbyn risg, mae ein Bwrdd wedi defnyddio'r matrics sgorio canlynol:

| **Risk appetite Level** → <br> **Risk types** ↓ | **Averse** <br> **Avoidance of risk is a key objective** | **Cautious** <br> **Preference for safe delivery options with a low degree of residual risk and only a limited reward potential** | **Eager** <br> **Eager to be innovative and to choose options offering higher business rewards despite greater inherent risk** |
|---|---|---|---|
| **Financial/VfM** <br> *How will we use our resources?* | • Minimisation of any financial impact or loss <br> • Vfm is a priority <br> • Resources only withdrawn from non-essential activities <br> • Defensive controls to minimise risk of fraud | • Prepared to accept the possibility of limited financial risk <br> • VfM remains our primary concern <br> • Resources generally restricted to core operations | • Prepared to invest for best possible benefit and accept possibility of financial loss (controls must be in place) <br> • Resources are allocated recognising that potential for financial gain outweighs inherent risk |
| **Governance** <br> *How will we ensure that we are operating within the legal framework?* | • No appetite for decisions that may compromise compliance with statutory, regulatory or policy requirements <br> • Defensive controls minimise risk of non-compliance | • Prepared to accept possibility of limited regulatory challenge <br> • Reasonably sure we would win any challenge (seek to understand where similar actions have been taken) | • Willing to take decisions that will likely result in regulatory intervention if we can justify these and where the potential benefits outweigh the risks to improve outcomes for stakeholders |
| **Operational and policy delivery** <br> *How will we deliver our services?* | • Defensive approach to objectives <br> • Minimal innovation – aim to maintain or protect <br> • Priority for tight management controls, oversight and limited devolved decision making | • Preference to the status quo <br> • Decision making authority generally held by senior management <br> • Innovation is generally avoided unless necessary/limited to improvements to protection of current operations | • Innovation pursued - new technologies viewed as a key enabler to operational delivery <br> • Desire to challenge current working practices <br> • High levels of devolved authority management and empowerment. |
| **Reputational** <br> *How will we build and maintain trust with the public and our partners?* | • Zero appetite for any decisions with high chance of repercussion for organisations' reputation <br> • Highly protective of the organisation's 'licence to operate' and unwilling to jeopardise trust and confidence in the organisation | • Tolerance for risk taking is limited <br> • There is limited chance on any significant repercussion for the organisation <br> • Controls are in place to limit fallout | • Appetite to take difficult decisions even when they are likely to bring scrutiny <br> • Outwardly promote new ideas and innovations where benefits outweigh risks and there is an opportunity to improve outcomes for stakeholders |
| **Our People** <br> *How will we safeguard and secure our workforce?* | • No appetite for decisions that could have a negative impact on our peoples' development, reputation and retention <br> • Sustainability is our primary interest | • Prepared to take limited risks with regards to our people <br> • Where seeking to innovate, we seek to understand where similar actions have been successful elsewhere before taking any decisions | • Willing to take risks which may have implications for our people but could improve the skills and capabilities of our people <br> • We recognise that invention is likely to be disruptive in the short term but with the possibility of long-term gains |
| **Information and data** <br> *How will we ensure the safety of information and data?* | • Access to data and information is tightly controlled with high levels of security, control and monitoring | • Accept need for operational effectiveness with risk mitigated through careful management to limit distribution and potential damage from disclosure | • Level of controls minimised with data and information openly shared <br> • Accept need for operational effectiveness in distribution and information sharing |

## Datganiad parodrwydd i dderbyn risg cyffredinol

Wrth bennu ei barodrwydd i dderbyn risg, mae Bwrdd Llais wedi mynegi ei awydd i fod yn flaengar a defnyddio risg yn rhagweithiol i effeithio ar newid gwirioneddol ac ystyrlon. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd hefyd wedi derbyn, yn enwedig yn ei flynyddoedd ffurfiannol, fod meysydd lle mae angen mabwysiadu ymagwedd fwy gofalus / gwrth-risg. Cydnabyddir bod angen cymryd rhywfaint o risg i feithrin arloesedd ac effeithlonrwydd yn ein ffyrdd o weithio, er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru – ond dim ond wrth gynnal safonau ar gyfer llywodraethu da, stiwardiaeth dda o arian cyhoeddus, a chyflawni ein holl rwymedigaethau ehangach fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| Cyllid / Gwerth am arian | Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn un **wrth-risg** i unrhyw golled neu effaith ariannol. Mae gwerth am arian yn amcan allweddol. |
| | Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn un **awyddus** i fuddsoddi lle mae budd i berfformiad gwell systemau, swyddogaethau a gwasanaethau Llais. |
| Llywodraethu | Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn un **wrth-risg** o ran penderfyniadau a allai beryglu cydymffurfiaeth â gofynion statudol, rheoliadol neu bolisi. |

| | |
|---|---|
| | Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn un **awyddus** i'n rheolaethau llywodraethu mewnol. Rydym am i'n rheolaethau mewnol adlewyrchu ein diwylliant. Rydym am i'n pobl deimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau, a pheidio â theimlo eu bod yn cael eu cyfyngu gan fiwrocratiaeth. Mae Llais yn dymuno hyrwyddo gwneud penderfyniadau ar y lefelau mwyaf priodol o fewn y sefydliad. |
| Gweithredol a chyflawni polisi | Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn un **awyddus** i arloesi. Rydym yn sefydliad uchelgeisiol, sydd am gyflawni newid gwirioneddol i bobl Cymru. |
| Enw da | Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn un **gofalus** o ran penderfyniadau a allai gael effaith andwyol ar y ffordd y mae ein partneriaid a'r cyhoedd yn ein gweld ni. Fodd bynnag, rydym hefyd yn **awyddus** i feithrin ymddiriedaeth, sefydlu perthnasedd cadarnhaol, a hyrwyddo proffil Llais a'r gwaith a wnawn ar ran pobl Cymru. |
| Ein pobl | Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn un **wrth-risg** o ran penderfyniadau a allai gael effaith negyddol ar les ein pobl. Ein blaenoriaeth yw meithrin ymddiriedaeth ein staff a'n gwirfoddolwyr, a chael ein gweld fel sefydliad sy'n hyrwyddo lles ei holl staff a gwirfoddolwyr. |
| | Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn un **awyddus** i helpu ein pobl i ddatblygu ac i wneud pethau'n wahanol ac er gwell. Rydym am roi cyfleoedd i'n pobl rannu syniadau ac awgrymu ffyrdd newydd o weithio, a gweld y rheini'n cael eu rhoi ar waith. |

| | | |
|---|---|
| Gwybodaeth a data | Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn un **wrth-risg** o ran diogelwch yr wybodaeth a'r data sydd gennym am ein pobl a'r cyhoedd, a'r niwed a allai gael ei achosi gan ddatgelu'r wybodaeth honno a thorri gofynion a deddfwriaeth llywodraethu gwybodaeth. |
| | Mae ein parodrwydd i dderbyn risg yn un **awyddus** o ran rhannu gwybodaeth a fydd yn gwella cydweithio gyda'n partneriaid strategol, ond dim ond lle mai'r nod yw gwella gwasanaethau i bobl Cymru ac o fewn ffin yr hyn a ganiateir gan ddeddfwriaeth. |

# Atodiad A: Safonau gofynnol ar gyfer ein hymagwedd rheoli risg bresennol

Mae'r safonau gofynnol yn nodi'r fframwaith sy'n cefnogi ein polisi rheoli risg presennol.  Mae'r safonau gofynnol hyn yn berthnasol i aelodau'r Bwrdd, staff a gwirfoddolwyr.

Mae safonau gofynnol Llais ar gyfer rheoli risg yn disgrifio'r gofynion sylfaenol ar gyfer rheoli risg ac adrodd.

Mae'r Safonau hyn yn nodi'r lefel ofynnol o weithgarwch ar sail risg sy'n ofynnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth, a'n staff a'n gwirfoddolwyr.  Mae hyn yn sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n ddigonol ac yn effeithiol, a bod pob gweithgaredd yn cadw at y parodrwydd i dderbyn risg sefydledig a'r gofynion adrodd.

Mae'r safonau gofynnol wedi'u datblygu i sicrhau bod Llais yn gwneud ei flaenoriaethau / amcanion yn ffocws i'w holl benderfyniadau yn barhaus.

Mae gennym dair blaenoriaeth sylfaenol i'w cyflawni:

1. cyflawni ein swyddogaethau statudol a rheoleiddiol
2. cyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau ehangach fel corff sector cyhoeddus

3. gweithredu mewn modd sy'n gyson â'r safonau a ddisgwylir gan gorff cyhoeddus.

Mae'r safonau gofynnol yn nodi'r gweithdrefnau a'r arferion safonol ar gyfer nodi ac asesu risg, ei thrin, ei monitro, ei hadrodd a'i huwchgyfeirio.

Er mwyn sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar risg wedi'u rheoli'n dda yn cael eu hymarfer, dylid cyfeirio at y cyhoeddiadau canlynol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru am arweiniad:

- Y Llyfr Gwyrdd – Canllawiau Llywodraeth Ganolog ar Arfarnu a Gwerthuso (DU)  Y Llyfr Gwyrdd
- Y Llyfr Oren – Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau (DU)  Y Llyfr Oren
- Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru [https://gov.wales/managing-welsh-public-money]

## Cadw cofrestrau risgiau

**Rhaid** cadw cofrestrau risgiau ar y lefelau canlynol ac ar gyfer y gweithgareddau canlynol o fewn Llais:

- ar lefel strategol, ar ffurf **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** (CRR) Llais
- ar lefel ranbarthol weithredol, ar ffurf **Cofrestrau Risgiau Rhanbarthol** (RRR)
- ar lefel swyddogaeth weithredol, ar ffurf **Cofrestrau Risg sy'n seiliedig ar Swyddogaeth** (FRR)

- ar gyfer unrhyw weithgaredd arall a allai gynrychioli risg sylweddol e.e. cofrestr risgiau ar gyfer rhaglenni neu brosiectau.

Er nad yw cofrestrau risgiau rhaglenni a phrosiectau yn safon ofynnol, fe'u hargymhellir hefyd gan fod asesiad risg yn rhan sylfaenol o gwmpasu, cynllunio a rheolaeth barhaus rhaglen neu brosiect.

Gellir cadw cofrestrau risgiau hefyd ar unrhyw lefel lle mae rheoli risg yn effeithiol yn ffactor allweddol wrth gyflawni amcanion busnes yn llwyddiannus e.e. ar lefelau is-swyddogaeth

Yn gynyddol, bydd Llais yn defnyddio **system / platfform OKR** (sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a chanlyniadau allweddol) i reoli adrodd ar gyflawniad ei amcanion, rheoli ei berfformiad, a'i drefniadau rheoli risg. Mae'r system hon yn datblygu ar hyn o bryd. Felly, yn y cyfamser, bydd y rhwydwaith presennol o gofrestrau risgiau traddodiadol yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, dros amser bydd hyn yn symud i'r system OKR, a fydd yn darparu adroddiadau integredig trwy ddangosfyrddau, adroddiadau rheoli perfformiad, a chofrestrau ac adroddiadau risg. Bydd y system OKR yn cynnig gwell adrodd trwy ddangosfyrddau ac adroddiadau integredig. Bydd y system OKR hefyd yn cael ei defnyddio'n weithredol, i hwyluso'r gwaith o fframio ac adrodd yn erbyn **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**.

Fodd bynnag, wrth adrodd, bydd hefyd yn bwysig i adroddiadau ategol adrodd hanes y risgiau sy'n cael eu hadrodd h.y. beth sydd wedi newid ers yr adroddiad diwethaf, pa mor effeithiol yw mesurau lliniaru a rheolaethau cyfredol, a beth sydd angen digwydd yn y cyfnod adrodd nesaf er mwyn

parhau i ymateb i'r risg.  Bydd angen i hyn gynnwys amserlenni ar gyfer sut mae'r risg wedi newid o chwarter i chwarter, ac asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen i liniaru risgiau a nodwyd yn effeithiol.  Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cyflwyno adroddiadau cyfnodol i'r Bwrdd a'i bwyllgorau.

# Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r adran hon yn egluro pwy sy'n gyfrifol am nodi, monitro, adrodd a goruchwylio risgiau.

## Ein Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am:

- cytuno ar y polisi rheoli risg a safonau gofynnol ar gyfer rheoli risg, ac am ystyried a chymeradwyo diweddariad yn flynyddol
- bod yn berchen ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- adolygu'r gofrestr risgiau corfforaethol yn rheolaidd, mewn cyfarfodydd Bwrdd yn gyhoeddus, a hefyd derbyn dangosfyrddau risg integredig a'r adroddiadau deg risg uchaf
- ceisio sicrwydd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth a'r Prif Weithredwr (fel Swyddog Cyfrifyddu Llais) ar effeithiolrwydd y polisi a'r fframwaith rheoli risg
- dirprwyo rheoli risg i'r grwpiau a'r unigolion priodol trwy'r Rhestr o Faterion a Gadwyd Yn Ôl i'r Bwrdd a'r dirprwyo i'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd yn datblygu Cynllun Dirprwyo ehangach.

# Ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn gyfrifol am:

- cyflawni ei ddyletswyddau yn ymwneud â fframwaith risg sefydliadol fel y dirprwyir gan y Bwrdd
- asesu'r strategaeth a'r polisi rheoli risg ac addasrwydd y safonau gofynnol ar gyfer rheoli risg, ac argymell i'r Bwrdd eu cymeradwyo
- adolygu'r gofrestr risgiau corfforaethol yn rheolaidd (ym mhob un o'i gyfarfodydd) a'r proffil risgiau sefydliadol, a cheisio sicrwydd ynghylch rheoli ac adrodd ar risg yn gyffredinol
- rhoi cyngor ar risgiau o fewn y gofrestr risgiau corfforaethol ac unrhyw gofrestrau risgiau eraill sy'n berthnasol i waith y pwyllgor, a chynghori sut y gellir eu rheoli / lliniaru ymhellach
- monitro a derbyn sicrwydd ar effeithiolrwydd y fframwaith, prosesau ac arferion rheoli risg
- herio a rhoi cyngor ac arweiniad ar strategaethau ac arferion rheoli risg, a sut y gellir eu gwella
- herio digonolrwydd rheolaethau mewnol Llais, gan ystyried yr amgylchedd risg mewnol ac allanol, nawr ac yn y dyfodol
- rhoi cyngor ar risgiau allweddol newydd sy'n codi
- derbyn gwybodaeth a sicrwydd ar y risgiau sy'n sgorio uchaf yn y cofrestrau risgiau rhanbarthol a'r cofrestrau risgiau sy'n seiliedig ar swyddogaeth
- adolygu sgiliau a gwybodaeth aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a swyddogion mewn perthynas â rheoli risg ac arfer da cyfredol
- sicrhau bod hyfforddiant rheoli risg priodol yn ei le ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, lle bo'n briodol
- herio adnabyddiaeth ansicrwydd mewnol ac allanol sy'n effeithio ar y sefydliad

## Ein Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth

Mae'r Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth yn gyfrifol am:

- cyflawni ei ddyletswyddau sy'n ymwneud â risg sefydliadol fel y'i dirprwyir gan y Bwrdd, yn enwedig gan eu bod yn ymwneud â'r gweithlu a materion sy'n ymwneud â gweithlu'r sefydliad
- monitro a chynghori ar fasged o risgiau sy'n ymwneud â phobl Llais a pholisïau, gweithdrefnau a threfniadau'r gweithlu.

## Ein Prif Weithredwr

Ein Prif Weithredwr yw Swyddog Cyfrifyddu Llais hefyd, ac mae'r Bwrdd wedi dirprwyo cyfrifoldeb iddo / iddi am sawl maes, gan gynnwys risg, ond mae ganddo / ganddi hefyd gyfrifoldebau diffiniedig, fel Swyddog Cyfrifyddu. Rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu sicrhau bod gweithredoedd Llais yn bodloni pedwar safon swyddog cyfrifyddu o ran rheoleidd-dra, priodoldeb, gwerth am arian ac ymarferoldeb y disgwylir gan Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd, o ran defnyddio adnoddau cyhoeddus.  Dyma hanfodion fframwaith risg Llais.

Felly, rhaid i'n Prif Weithredwr sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol.

Er mai'r Prif Weithredwr sy'n bennaf gyfrifol am reoli risg ar lefel weithredol, mae dirprwyaethau wedi'u gwneud i'r unigolion priodol yn y sefydliad.

## Ein Hysgrifennydd Bwrdd

Ein Hysgrifennydd Bwrdd yw ein huwch gynghorydd ar bob mater sy'n ymwneud â risg ar gyfer Llais, ac mae wedi'i ddynodi fel deiliad a chydlynydd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Mae'n gyfrifol am roi cyngor ac arweiniad i'r Tîm Gweithredol, yr uwch dîm rheoli ehangach (Tîm Arwain), y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth a'r Bwrdd.

Bydd yn sicrhau bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar y polisi a'r fframwaith rheoli risg a pharodrwydd i dderbyn risg, ac yn gwneud unrhyw newidiadau a gynigir gan y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain, a phwyllgorau'r Bwrdd, a'r Bwrdd ei hun.

## Ein Tîm Gweithredol

Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu, y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Ysgrifennydd Bwrdd. Mae gan y Tîm Gweithredol gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo, fel yr arweinwyr gweithredol uchaf yn y sefydliad, am oruchwylio'r system rheoli risg yn Llais a'i broffil risgiau, ac adnabod a rheoli unrhyw risgiau i strategaeth y sefydliad, gweithgareddau busnes a'r risgiau sy'n ymwneud â chyflawni amcanion y sefydliad yn effeithiol.

Bydd y Cyfarwyddwyr Strategol yn gyfrifol am reoli risg yn eu swyddogaethau.  Bydd y Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol, mewn cysylltiad â'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, yn arwain ac yn goruchwylio rheoli risg yn 7 rhanbarth Llais.

Bydd y Tîm Gweithredol yn adolygu'r fframwaith rheoli risg yn gyson, ac yn ystyried y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn wythnosol yn ei gyfarfodydd ffurfiol.  Bydd hefyd yn cynnal adolygiad llawn o ddogfennaeth a chofrestrau risgiau cyn pob prif gyfarfod sefydliadol e.e. y Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arwain.  Yna, bydd y Tîm Gweithredol yn ymgysylltu â'r Tîm Arwain i sicrhau bod camau rheoli risg yn ymateb yn effeithiol, ac yn adrodd yn gywir ar broffil risg y sefydliad.

## Ein uwch dîm rheoli (Tîm Arwain)

Mae'r uwch dîm rheoli ehangach, sef y Tîm Arwain, yn cynnwys y Tîm Gweithredol, Cyfarwyddwyr Rhanbarthol, y Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl, y Cyfarwyddwr Cyllid, a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Mewnwelediad.  Mae cyfrifoldeb dirprwyedig gan y Tîm Arwain (gan y Prif Weithredwr) am nodi a rheoli unrhyw risg i weithgareddau gweithredol a busnes ehangach y sefydliad.

O ran y polisi a'r fframwaith rheoli risg, bydd yr uwch dîm rheoli yn:

- monitro a chynnal y polisi (gan gynnwys parodrwydd i dderbyn risg) a'r fframwaith rheoli risg, ac yn uwchgyfeirio unrhyw bryderon i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth, a'r Bwrdd i'w hystyried a'u datrys

- sicrhau bod y polisi rheoli risg, y datganiad parodrwydd i dderbyn risg, a'r fframwaith rheoli risg yn cael eu cyfleu i'r holl staff, a hwyluso hyfforddiant ac ymgysylltiad i'w rhoi ar waith yn effeithiol
- herio unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth, ar lefel weithredol, â'r polisi rheoli risg a'r fframwaith rheoli risg
- hyrwyddo arfer rheoli risg da
- codi ymwybyddiaeth o risg a'r angen am arferion rheoli risg effeithiol
- sicrhau bod risg yn cael ei drafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd yr uwch dîm rheoli, ac fel rhan o brosiectau a allai gael eu comisiynu gan y Tîm Arwain.

O ran y gofrestr risgiau corfforaethol, bydd y Tîm Arwain yn:

- adolygu'r gofrestr yn rheolaidd a chadarnhau sgôr RAG (coch, oren, gwyrdd), mesurau lliniaru, camau gweithredu pellach, risgiau targed ac ati.
- sicrhau bod unrhyw risgiau lefel strategol newydd yn cael eu huwchgyfeirio i'r Tîm Gweithredol i'w cytuno, a'r pwyllgor priodol a'r Bwrdd i'w monitro / craffu.
- cynnig unrhyw ddiwygiadau i'r gofrestr
- neilltuo perchnogion risg i bob risg ar y gofrestr

O ran y cofrestrau risgiau rhanbarthol a'r cofrestrau risgiau swyddogaeth, bydd y Tîm Arwain yn:

- monitro risgiau ar lefelau rhanbarthol a swyddogaeth (heb eu huwchgyfeirio i'r gofrestr risgiau corfforaethol trwy gytundeb gyda'r Tîm Gweithredol), gan gynnwys risgiau prosiect mawr
- adolygu'r risgiau sy'n sgorio uchaf yn y cofrestrau risgiau rhanbarthol a'r cofrestrau risgiau swyddogaeth, i hwyluso adrodd trwy'r strwythur llywodraethu sefydliadol.

O ran hyfforddiant rheoli risg, bydd y Tîm Arwain yn:

- monitro addasrwydd yr hyfforddiant rheoli risg sydd ar waith, trwy ei adolygu'n rheolaidd
- sicrhau bod hyfforddiant rheoli risg priodol ar gael ac yn hygyrch i'r staff i gyd
- sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant rheoli risg a sesiynau diweddaru, pan fo angen
- trafod gydag arweinwyr risg rhanbarthol a risg swyddogaeth i nodi anghenion hyfforddiant risg
- sicrhau bod deunydd hyfforddiant risg yn cael ei gadw'n gyfoes

## Arweinwyr risg rhanbarthol a risg swyddogaeth

Yr arweinwyr risg rhanbarthol a risg swyddogaeth yw'r unigolion canlynol:

- Cyfarwyddwyr Rhanbarthol
- Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
- Cyfarwyddwr Cyllid
- Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Mewnwelediad

- Rheolwr Seilwaith Digidol
- Rheolwr Llywodraethu

Mae'r unigolion hynny yn gyfrifol am:

- hyrwyddo arfer rheoli risg da yn eu meysydd
- monitro cydymffurfiaeth â safonau rheoli risg gofynnol yn eu meysydd
- paratoi a chadw cofrestrau risgiau ar gyfer eu meysydd
- adolygu eu cofrestrau risgiau yn rheolaidd a sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol
- comisiynu diweddariadau i'w cofrestrau risgiau
- monitro effeithiolrwydd prosesau ac arferion rheoli risg yn eu meysydd, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi a'r fframwaith rheoli risg
- herio digonolrwydd rheolaethau mewnol o fewn eu meysydd, yn unol â'r amgylchedd risg mewnol ac allanol presennol ac yn y dyfodol
- rhoi cyngor ar risgiau yn eu meysydd a sut y gellir eu rheoli / lliniaru
- amlinellu a chyfleu blaenoriaethau ar lefel ranbarthol / swyddogaeth i staff, ac egluro sut y cânt eu cyflawni wrth gadw at y polisi rheoli risg a'r safonau gofynnol
- adrodd ar risg o fewn eu meysydd trwy rannu cofrestrau risgiau gyda'r uwch dîm rheoli / Tîm Gweithredol yn rheolaidd i'w hystyried a rhoi sicrwydd
- uwchgyfeirio risgiau na ellir eu rheoli ar eu lefel i'r uwch dîm rheoli / Tîm Gweithredol i'w hystyried
- sicrhau bod cofrestrau risgiau yn adlewyrchu adolygiadau ac atborth yr uwch dîm rheoli / Tîm Gweithredol
- rhoi cyngor ar faterion risg allweddol sy'n codi trwy drafod y rhai gyda'r uwch dîm rheoli / Tîm Gweithredol a'u hadlewyrchu mewn papurau ac adroddiadau

- herio a rhoi cyngor ac arweiniad ar arferion rheoli risg a sut y gellir eu gwella

## Staff Llais

Mae gan staff gyfrifoldeb i:

- defnyddio'r offer a thempledi rheoli risg safonol, gan gynnwys y gofyniad i asesu risg yn adroddiadau'r Bwrdd, ei bwyllgorau a'r Tîm Arwain.
- rhoi ystyriaeth i ddatganiad parodrwydd i dderbyn risg Llais
- cynnal y polisi rheoli risg a'r prosesau a nodir yn y safonau rheoli risg gofynnol
- sicrhau bod penderfyniadau ar sail risg yn cael eu hymarfer
- ymgymryd â'u hyfforddiant rheoli risg, yn ôl yr angen

## Adolygu cofrestrau risgiau

| | |
|---|---|
| Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | ➢ Ystyriaeth a chymeradwyaeth ddwywaith y flwyddyn gan y Bwrdd |
| Cofrestr risgiau corfforaethol | ➢ Yn fisol gan y Tîm Gweithredol<br>➢ Yn fisol gan y Tîm Arwain<br>➢ Yn chwarterol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (cofrestr lawn) |

| | |
|---|---|
| | ➢ Yn chwarterol gan y Pwyllgor Gweithlu, Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth (risgiau'n ymwneud â'i gylch gwaith yn unig)<br>➢ Gan y Bwrdd ym mhob un o'i gyfarfodydd yn gyhoeddus. Fodd bynnag, bydd hwn yn cael ei gyflwyno ar ffurf dangosfwrdd, a dibynnir ar graffu manwl pwyllgorau'r Bwrdd. |
| Cofrestrau risgiau rhanbarthol / swyddogaeth | ➢ Yn fisol gan y cyfarwyddwyr rhanbarthol a'r arweinwyr risg swyddogaeth<br>➢ Yn chwarterol gan y Tîm Arwain |
| Cofrestrau risgiau rhaglen / prosiect | ➢ Ym mhob cyfarfod grŵp prosiect / rhaglen |
| Templed cofrestr risgiau | ➢ Adolygiad blynyddol gan yr Ysgrifennydd Bwrdd.<br>Bydd hyn yn datblygu ymhellach dros amser wrth i'r system OKR gael ei defnyddio fwyfwy gan Llais, ac wrth i swyddogaeth risg y platfform gael ei mwyhau. Bydd hyn yn golygu na fydd angen rhwydwaith o gofrestrau risgiau mwyach, a bydd dimensiwn risg busnes a gweithgareddau Llais yn cael ei ymgorffori a'i integreiddio i'r mewnbwn i'r system, gyda chofrestrau ac adroddiadau risg (gan gynnwys adroddiadau dangosfwrdd) yn cael eu creu'n awtomatig. Bydd hyn yn dilyn yr egwyddor o fewnbwn unwaith y caiff ei defnyddio lawer gwaith. |

## Adrodd tuag i fyny ac uwchgyfeirio risgiau

Cyfrifoldeb pob haen o'r strwythur llywodraethu risg a'r holl staff, ni waeth beth fo'u lefel, yw nodi risgiau sy'n effeithio ar gyflawni eu hamcanion ac i:

- **adrodd** tuag i fyny drwy'r gadwyn rheolwyr atebol a'r strwythur llywodraethu risg ar risgiau yr asesir eu bod yn debygol iawn o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion, ond ***y gellir eu rheoli*** ar y lefel a nodwyd, o bryd i'w gilydd, yn ôl yr angen;
- **uwchgyfeirio** i fyny drwy'r gadwyn rheolwyr atebol a'r strwythur llywodraethu risg ar risgiau yr asesir eu bod yn debygol iawn o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion, ac ***na ellir eu rheoli*** ar y lefel a nodwyd, cyn gynted ag y cânt eu nodi.

Byddai risgiau i'w huwchgyfeirio i'r gofrestr risgiau corfforaethol fel arfer yn dod o dan un neu fwy o'r categorïau canlynol:

- mor sylweddol/hanfodol na ellir eu rheoli ar lefel weithredol, ond mae angen eu rheoli ar lefel strategol holl-sefydliadol;
- effaith ar rannau lluosog o'r sefydliad ar yr un pryd, sy'n gofyn am ymagwedd "sefydliad cyfan" i ddarparu un ateb sy'n effeithiol i bawb;
- gall arwain at fethiant i gyflawni swyddogaethau ac amcanion y sefydliad.

## Templed cofrestr risgiau

Dylid defnyddio templed cofrestr risgiau i nodi risgiau a nodwyd.  Rhaid iddo gynnwys yr adrannau canlynol fan lleiaf.  Gellir dod o hyd i dempled cofrestr risgiau wag ar y system SharePoint.

| Categori | Rhif Risg | Perchennog y Risg | Disgrifiad o'r Risg | Effaith Gynhenid | Tebygolrwydd Cynhenid | Sgôr Cynhenid | Rheolaethau Risg yn eu lle a Chamau Gweithredu (yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd) | Effaith | Tebygolrwydd | Sgôr Gweddillol presennol | Newid i' r sgôr ers y trafodwyd ddiwethaf | Sgôr Gweddillol blaenorol | Camau Gweithredu pellach sydd ar waith / yn ofynnol | Sgôr disgwyliedig yn dilyn y camau gweithredu | Cysylltiad â'r Parodrwydd i dderbyn risg | Ffynonellau sicrwydd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yn gysylltiedig ag amcan strategol** | | **Arweinydd Risg** | **Rhwystrau rhag darparu a chyflawni'r amcanion** | | | | **Mesurau lliniaru sydd ar waith i fynd i'r afael â'r risg (osgoi, lleihau, derbyn neu rannu). Rhestr o fesurau lliniaru rheoli risg.** | | | | | | **Angen camau gweithredu pellach, erbyn pryd a sut yr adroddir ar gynnydd, gan gynnwys amserlen yr adolygiad nesaf.** | | | | **Lliwddangoswch yr hyn sydd wedi newid ers yr adroddiad diwethaf er hwylustod.** |

**Saethau** – i ddangos symudiad y sgoriau risg ers y diweddariad diwethaf (gellir cynnwys y rhain yn y colofnau sgôr lle mae ↓ = risg yn lleihau, ↑ = risg yn cynyddu a ↔ = risg heb newid).

Yn y tabl uchod, I = effaith, L = tebygolrwydd ac O = cyfanswm y ddau sgôr hyn, neu'r sgôr risg cyffredinol.

Dylid ychwanegu colofnau ychwanegol, fel y bernir eu bod yn ddefnyddiol, yn angenrheidiol, ac yn ôl yr angen, megis:

- **Agosrwydd** – pa mor agos yw'r risg at ddod i'r amlwg (er bod hyn yn bwydo i mewn i'r sgôr tebygolrwydd)
- **Cyflymder** – y cyflymder y gallai'r risg ddod i'r amlwg
- **Cyfeirnod/Dyddiad** – dynodwr unigryw ar gyfer y risg a'r dyddiad y cafodd ei nodi
- **Goddefiant** – faint o risg y mae perchennog y risg yn gyfforddus yn ei gymryd, neu faint o ansicrwydd y gall perchennog y risg ymdopi ag ef
- **Math o Risg** – adlewyrchu natur y risg / ffynhonnell y risg
- **Sylwadau** – sylwadau ychwanegol i helpu i ddeall y risg, ei phroffil, newidiadau sydd wedi digwydd, a chamau gweithredu arfaethedig ar gyfer y cyfnod nesaf.

## Sgorio risg

Defnyddir system “sgorio risg” i werthuso a mynegi effaith a thebygolrwydd gwahanol risgiau.

Defnyddir matrics sgorio risg yn ystod asesiad risg i bennu’r lefel drwy ystyried:

- yr effaith y gallai’r risg ei chael (pa mor wael y gallai fod); a
- y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd (pa mor debygol yw hi o ddigwydd).

Mae Llais yn sgorio risgiau gan ddefnyddio matrics “5x5”, lle mae effaith risg a thebygolrwydd risg yn cael eu sgorio o 1 (isel) i 5 (uchel).

Er mwyn pennu’r sgôr risg cyffredinol, bydd angen i aseswyr / perchnogion risg luosi’r sgôr ‘effaith risg’ â’r sgôr ‘tebygolrwydd risg’.  Dylai hyn roi sgôr gyffredinol rhwng 1 a 25 i chi.

Pennir lefel gyffredinol y risg gan y sgôr cyffredinol fel a ganlyn:

| Sgôr | Lefel | Natur y Risg |
|---|---|---|
| 20 – 25 | Uchel iawn / Eithafol | Risgiau critigol |
| 13 – 19 | Uchel | Risgiau sylweddol |
| 5 – 12 | Canolig | Risgiau hydrin |
| 1 - 4 | Isel | Risgiau dibwys |

Mae tebygolrwydd yn asesiad o'r tebygolrwydd y bydd y risg yn dod i'r amlwg:

| Tebygolrwydd | Sgôr | Tebygoliaeth | Eglurhad |
|---|---|---|---|
| **Prin** | 1 | Isel | Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y daw'r risg i'r amlwg |
| **Annhebygol** | 2 | Isel / Canolig | Mae'n debygol na fydd y risg yn dod i'r amlwg |
| **Posib** | 3 | Canolig | Gallai'r risg ddod i'r amlwg rywbryd |
| **Tebygol** | 4 | Canolig / Uchel | Mae'n debygol y bydd y risg yn dod i'r amlwg o leiaf unwaith |
| **Tebygol iawn / Sicr** | 5 | Uchel | Bydd y risg yn dod i'r amlwg yn y rhan fwyaf o amgylchiadau |

Mae effaith yn asesiad o raddau'r niwed neu'r cyfle a gollir os daw'r risg i'r amlwg.

| Effaith | Sgôr | Eglurhad |
|---|---|---|
| **Dibwys** | 1 | Ychydig iawn o golled, oedi, anghyfleustra neu amhariad. Gellir datrys pethau'n gyflym ac yn hawdd |
| **Mân** | 2 | Mân golled, oedi, anghyfleustra neu amhariad – Effaith tymor byr neu ganolig |
| **Cymedrol** | 3 | Gwastraff amser ac adnoddau sylweddol – effaith ar effeithlonrwydd gweithredol, allbwn ac ansawdd – effaith tymor canolig, a all fod yn ddrud i'w adfer |
| **Mawr** | 4 | Effaith fawr ar gostau ac amcanion – effaith ddifrifol ar allbwn a/neu ansawdd ac enw da. Effaith tymor canolig i hirdymor ac yn ddrud i'w adfer |
| **Critigol** | 5 | Effaith gritigol ar gyflawni amcanion a pherfformiad cyffredinol. Effaith sylweddol ar gostau a/neu enw da. Anodd iawn ac yn cymryd amser hir i adfer o bosib. |

Mae’r cyfuniad o’r sgoriau effaith a thebygolrwydd yn rhoi sgôr risg gyffredinol ar gyfer risg benodol.  Dyma’r Matrics Risg:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tebygol iawn / Sicr 5** | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| **Tebygol 4** | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| **Posib 3** | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| **Annhebygol 2** | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| **Prin 1** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | **Dibwys 1** | **Mân 2** | **Cymedrol 3** | **Mawr 4** | **Critigol 5** |

## Mesur tebygolrwydd

Gellir defnyddio'r enghreifftiau canlynol i helpu i fesur y tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd, o'r prin i'r tebygol iawn.

Mae'r tabl isod yn rhoi disgrifiad manwl o'r hyn y mae pob un o'r sgoriau tebygolrwydd yn ei olygu yn erbyn pob enghraifft.

| Enghraifft | 1 Prin | 2 Annhebygol | 3 Posib | 4 Tebygol | 5 Tebygol iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Naratif | Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y risg yn dod i'r amlwg. | Mae'n debygol na fydd y risg yn dod i'r amlwg. | Mae'n bosib y bydd y risg yn dod i'r amlwg rywbryd. | Mae'n debygol y bydd y risg yn dod i'r amlwg o leiaf unwaith. | Bydd y risg yn dod i'r amlwg yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. |
| Treigl amser | Gall y risg ddigwydd yn yr 20 mlynedd nesaf neu o leiaf unwaith yn y 100 mlynedd nesaf. | Gall y risg ddigwydd yn y 5 mlynedd nesaf neu o leiaf unwaith yn yr 20 mlynedd nesaf. | Gall y risg ddigwydd nifer o weithiau yn ystod y flwyddyn neu o leiaf unwaith yn y 5 mlynedd nesaf. | Gall y risg ddigwydd sawl gwaith bob mis neu o leiaf unwaith y flwyddyn. | Gall y risg ddigwydd bob dydd neu o leiaf unwaith y mis / yn y mis nesaf. |
| Tebygolrwydd % | 0-5% | 6-25% | 26-60% | 61-75% | >76% |

## Mesur effaith

Mae pum mesur ar gael wrth asesu'r tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd, o'r lleiaf posib i'r critigol.

Mae gan yr asesiad effaith gwmpas ehangach, oherwydd gall fod ffactorau lluosog i'w hystyried wrth asesu effaith risg.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhai enghreifftiau o effaith a allai eich cynorthwyo i ystyried effaith risg.

Mae'r tabl isod yn rhoi disgrifiad o rai enghreifftiau i gefnogi'r asesiad effaith. Nid yw'r rhain yn hollgynhwysfawr; bydd ffactorau eraill yn benodol i amcanion penodol, a bydd mesurau effaith yn dibynnu ar y lefel y mae'r risg yn cael ei hasesu.

| Enghraifft | 1<br>Effaith Lleiaf | 2<br>Mân Effaith | 3<br>Effaith Sylweddol | 4<br>Effaith Fawr | 5<br>Effaith Gritigol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amharu ar weithrediadau sefydledig** | Dim ymyrraeth ar wasanaeth. Mân brotest ddiwydiannol | Peth amhariad y gellir ei reoli trwy newid y drefn weithredol | Amhariad ar sawl maes gweithredol o fewn lleoliad ac effaith bosib ar leoliadau eraill | Holl ardaloedd gweithredol lleoliad dan fygythiad. Gall lleoliadau eraill gael eu heffeithio | Y system gyfan yn camweithredu. Cau gweithrediadau yn gyfan gwbl |
| **Niwed i enw da** | Mân gyhoeddusrwydd anffafriol yn y cyfryngau lleol | Cyhoeddusrwydd andwyol sylweddol yn y cyfryngau lleol | Cyhoeddusrwydd andwyol sylweddol yn y cyfryngau cenedlaethol, yn effeithio ar hyder y cyhoedd | Cyhoeddusrwydd anffafriol parhaus yn y cyfryngau cenedlaethol, yn tanseilio hyder y cyhoedd | Colli ymddiriedaeth y cyhoedd yn y llywodraeth |
| **Diogelwch** | Dim digwyddiad hysbysadwy nac adroddadwy | Digwyddiad lleol heb unrhyw effaith ar weithrediadau | Digwyddiad lleol ond yn cael effaith sylweddol ar weithrediadau | Digwyddiad sylweddol yn ymwneud â sawl lleoliad | Digwyddiad eithafol yn effeithio'n ddifrifol ar barhad gweithrediadau |
| **Ariannol** | <1% o'r gyllideb fisol | >2% o'r gyllideb fisol | >5% o'r gyllideb fisol | >10% o'r gyllideb fisol | >15% o'r gyllideb fisol |
| **Effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol cyffredinol** | Dim effaith andwyol barhaol ar yr amgylchedd h.y. sŵn, mygdarth, arogl, allyriadau | Effaith andwyol lleol, tymor byr, ar yr amgylchedd neu effaith gymdeithasol e.e. | Gollyngiad lleol, difrifol, o lygrydd neu ffynhonnell aflonyddwch cymunedol o fewn | Effaith amgylcheddol neu gymdeithasol andwyol, hirdymor e.e. rhyddhau | Effeithiau hirdymor helaeth ar yr amgylchedd a'r gymuned e.e. gollyngiad |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | llwch ac ati, ac am gyfnod byr | gollyngiad sylweddol o lygryddion o fewn cymdogaeth leol | cymdogaeth gyffredinol, sydd angen gweithredu adferol | llygrydd cronig a/neu sylweddol | trychinebus o lygredd peryglus parhaus |
| **Rheolaeth gorfforaethol** | Anfodlonrwydd staff a rheolwyr – lleol | Anfodlonrwydd staff a rheolwyr – ehangach | Tebygolrwydd o gamau cyfreithiol | Camau cyfreithiol | Colli uwch reolwyr |
| **Rheolaeth weithredol** | Anfodlonrwydd staff ac arolygwyr | Anfodlonrwydd yn tarfu ar allbwn | Amhariad sylweddol ar weithrediadau | Adroddiad Archwilio Cymwys i'r Bwrdd yn enwi rheolwyr | Ymddiswyddiad / diswyddo rheolwyr |
| **Iechyd a diogelwch yn y gweithle** | Digwyddiad – dim amser wedi'i golli | Anaf – dim amser wedi'i golli | Anaf – amser wedi'i golli | Anaf / straen difrifol yn arwain at fynd i'r ysbyty | Marwolaeth (nid achosion naturiol) |

## Ffynhonnell risg

Rhaid cymryd golwg eang wrth nodi risgiau posib i gyflawni amcanion; ni ddylid ystyried unrhyw ffynonellau'n amherthnasol, neu y tu allan i'r cwmpas, lle gallent gael effaith amlwg ar gyflawniad.

Gallai ffynonellau posib i'w hystyried gynnwys:

- **Cymhlethdod** – graddau cymhlethdod, natur gweithgareddau, gallu a chapasiti adnoddau
- **Diwylliant** – newidiadau mewn disgwyliadau, safonau, safbwyntiau derbyniol
- **Cyflawni drwy drydydd parti / rhychwant rheolaeth** – cyfyngiadau ar allu technegol, methiant i fod yn ddigon arloesol, anghysondebau gweithredol ac ariannol, proses gwneud penderfyniadau feichus, diffyg gwybodaeth ddigonol am fusnes partneriaid, cydbwysedd anghywir rhwng ymreolaeth a rheolaeth, pwyslais ar dargedau yn ystumio canlyniadau
- **Economi / adnoddau** – amodau economaidd anffafriol a'r adnoddau sydd ar gael
- **Ariannol** - buddsoddiad annigonol, colled ariannol, dwyn, gorwariant / tanwariant, cyfyngiadau ar adnoddau (cyllid/amser/personél), gwerth gwael am arian, gwastraff, defnydd gwael o asedau, diffyg arbenigedd ariannol, trosiant staff uchel, anghywirdeb, diffyg cywirdeb, gwybodaeth ariannol annibynadwy
- **Twyll** - systemau annigonol i ganfod neu atal twyll, diffyg diwydrwydd dyladwy, cymhlethdod cynyddol systemau ariannol, e-drosedd dwyn hunaniaeth, angen gwybod a deall ceiswyr a derbynyddion grantiau.

- **Llywodraethu** – systemau annigonol neu heb eu cynllunio’n dda, systemau y cytunwyd arnynt ddim yn cael eu dilyn gan y Bwrdd, ei bwyllgorau a staff
- **Adnoddau dynol / ffactorau dynol** - arbenigedd gwybodaeth, effeithiolrwydd, argaeledd, dargadwad, trosiant staff, materion capasiti, pwyntiau unigol o fethiant, cymhelliant gweithwyr, cyfraith cyflogaeth, cynllunio olyniaeth, hyfforddiant, a gwall dynol/seicoleg
- **Cyfreithiol** – gofynion a rhwymedigaethau statudol y gyfraith gyffredinol, her drwy adolygiad barnwrol, hawliadau am iawndal neu iawndal arall, deddfwriaeth anhygyrch neu ddiffygiol fel arall, cymhwysedd
- **Rheoli gwybodaeth a data** – anghywirdeb neu anghyfiawnder, dim digon o ffocws i lywio penderfyniadau polisi neu weithredol mewn ffordd ystyrlon, diffyg arbenigedd mewn dehongli, oedi cyn cael at ddefnydd, defnydd amhriodol gan Llais neu eraill, datgelu amhriodol, hacio, llygru data
- **Gweithredol (cyffredinol)** – y risgiau sy’n gysylltiedig â rheolaeth barhaus holl fusnes Llais o ddydd i ddydd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys risgiau ynghylch y prosesau busnes a ddefnyddir i gyflawni’r amcanion busnes
- **Gweithredol (adeiladau)** – gofynion cyfreithiol, cyfrifoldebau sefydliadol ac unigol heb eu cyflawni, seilwaith a chyfleusterau, risgiau iechyd a diogelwch i staff a gwirfoddolwyr, ymwelwyr neu gontractwyr, hawliadau cyfreithiol, methiant TG / arloesedd, adfer ar ôl trychineb, parhad busnes, lladrad, tân, terfysgaeth
- **Polisi (datblygu)** – gwrthdaro / anghysondebau rhwng polisïau, gwrthdaro / anghysondebau gyda pholisïau sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, asiantaethau, yn cael eu goddiweddyd gan ddigwyddiadau, ymgynghori

- **Polisi (gweithredu**) – oedi wrth weithredu, adnoddau annigonol i gyflawni'n effeithiol (cyllid/amser/personél), colli staff profiadol cyn cwblhau, canlyniadau aneffeithiol neu anfwriadol, diffiniad gwael o amodau a thelerau cynllun grant, rheolaeth wael ar grantiau
- **Gwleidyddol a chymdeithasol** – datblygu polisi a/neu gyflawni wedi'i oddiweddyd gan newidiadau mewn cyfeiriad neu newidiadau mewn pwyslais sy'n deillio o ystyriaethau gwleidyddol yng Nghymru / y DU, neu effaith dylanwadau rhyngwladol / UE, polisi wedi'i ailddiffinio pan fydd y gweithredu'n mynd rhagddo'n dda, sy'n golygu nad yw'r gweithredu bellach yn addas i'r diben
- **Caffael** – ariannol, marchnad newidiol, technolegol, amgylcheddol, cytundebol, deddfwriaethol, dylunio, cynllunio, adeiladu neu oedi arall, argaeledd a pherfformiad yr ased, maint gweithredol neu alw am ased neu wasanaethau unwaith y bydd yn weithredol, cynnal a chadw ased, gwerth gweddilliol, prinder staff â chymwysterau neu brofiad addas, diogelwch, cysylltiadau cyhoeddus
- **Prosiect** – cyfyngiadau ar adnoddau (cyllid/amser/personél), oedi cyffredinol, oedi i gamau ar y llwybr critigol, newidiadau i ofynion allbwn, cael eu goddiweddyd gan ddigwyddiadau, darfodiad TG, anawsterau wrth gael gwybodaeth, cyfleusterau neu offer angenrheidiol, newidiadau i bersonél, prinder staff â chymwysterau neu brofiad addas yn golygu mynd i gost am ymgynghorwyr, blaenoriaethau gwahanol rhanddeiliaid gwahanol
- **Enw da, moeseg a chyfrifoldeb** - colli enw da yn effeithio ar ddylanwad / effeithiolrwydd, polisïau'n cael eu camddeall neu'u camddehongli, goblygiadau negyddol a nodwyd gan eraill nad ydynt wedi'u hystyried yn flaenorol, methu â chadw partneriaid o'n plaid, torri cyfrinachedd
- **Technoleg** – cyflymder newid, y gallu i arloesi, y gallu i ymateb

## Nodi ymatebion i risgiau cynhenid

Rhaid defnyddio'r termau canlynol i ddisgrifio natur yr ymateb i risg:

Penderfynu peidio â chymryd risg - **OSGOI**
Penderfynu derbyn y risg - **DERBYN**
Penderfynu trosglwyddo'r risg - **RHANNU**
Penderfynu lleihau'r risg - **LLEIHAU**
Penderfynu manteisio ar gyfle risg - **MANTEISIO**

*Sylwer - mae "rhannu" risg yn cynnwys trosglwyddo'r risg, lledaenu'r risg, yswirio yn erbyn y risg.*

Disgwylir i staff gymhwyso'r egwyddor "mor isel ag sy'n rhesymol o ymarferol" wrth benderfynu ar eu hymagwedd a phennu'r risg darged y maent yn ei cheisio o'u mesurau lliniaru risg. Hynny yw:

- dylid gosod risgiau targed ar lefel sy'n ystyried a yw hyd yn oed yn bosib lleihau'r risg, nid dim ond a yw'n ddymunol;
- dylid cyflawni mesurau lliniaru risg i leihau risg gynhenid lle mae cost y mesurau lliniaru neu'r rheolaeth sydd ei angen i leihau'r risg yn gymesur, a byth yn fwy na'r gost i'r sefydliad pe bai'r risg yn dod i'r amlwg.
- Gellir cymryd risgiau yn unol â'r parodrwydd i dderbyn risg ac amcanion datganedig Llais i arloesi a manteisio ar gyfleoedd i wella.

## Adolygu safonau a gwelliant parhaus

Mae’r offer a’r templedi a nodir yn y safonau gofynnol hyn yn destun adolygiad o leiaf bob blwyddyn gan yr Ysgrifennydd Bwrdd, drwy ymgynghori â’r Tîm Gweithredol a’r Tîm Arwain. Bydd unrhyw gynigion ar gyfer newid yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i’w hardystio a’u cymeradwyo gan y Bwrdd, fel rhan o’r ystyriaeth flynyddol, a chymeradwyaeth o’r Strategaeth a’r Polisi a adolygwyd.

Dylai unrhyw newidiadau gael eu profi hefyd gyda’r swyddogaeth archwilio mewnol i sicrhau:

- eu bod yn cyd-fynd ag arfer gorau;
- eu bod yn addas i’r diben; a
- bod atborth defnyddwyr yn cael ei ystyried